COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MAWRTH, 21 MAI 2019

AELODAU

Y Cynghorydd Andy Williams, Maer
Y Cynghorydd Robert Walsh, Dirprwy Maer

Y Cynghorydd		Bryan Apsley	Y Cynghorydd		Paul Jones
"		Andrew Atkinson	"		David Kelly
"	*	William Baldwin	"		Malcolm C King OBE
"	*	Trevor Bates	"		Geoff Lowe
"		Sonia Benbow-Jones	"		David Maddocks
"		David A Bithell	"		Tina Mannering
"		I David Bithell, MBE	"		John McCusker
"	*	Paul Blackwell	"		Joan Lowe
"	*	Brian Cameron	"		M G Morris
"	*	Krista Childs	"		Beverley Parry-Jones
"		Dana Davies	"		Paul Pemberton
"	*	Mike Davies	"		John Phillips
"	*	Michael Dixon	"		Ronnie Prince
"		T Alan Edwards	"		John Pritchard
"		Terry Evans	"		Mark Pritchard
"		Russell Gilmartin	"	*	Paul Roberts
"		David J Griffiths	"	*	Rondo Roberts
"		Carrie Harper	"		Graham Rogers
"		Frank Hemmings	"	*	Paul Rogers
"		Kevin Hughes	"		J R Skelland
"	*	R Alun Jenkins	"		Debbie Wallice
"		Adrienne Jeorrett	"		Barrie Warburton
"		Gwenfair Jones	"		Nigel Williams
"	*	Hugh Jones	"		Derek Wright
"		Marc Jones	"		Phil Wynn

*Yn absennol

1 CYFLWYNIAD

Fe wnaeth y Prif Weithredwr -

(a) ddarllen yr Hysbysiad yn ymgynnull Cyfarfod Blynyddol y Cyngor;

(b) roi gwybod bod ymddiheuriadau am absenoldeb wedi cyrraedd gan y Cynghorwyr William Baldwin, Trevor Bates, Paul Blackwell, Krista Childs, Mike Davies, Michael Dixon, R Alun Jenkins, Hugh Jones, Geoff Lowe, Paul Roberts a Rondo Roberts.

2 ETHOL MAER

Cynigiodd y Cynghorydd Phil Wynn, eiliwyd gan y Cynghorydd Bryan Apsley ac yn

unfrydol -

PENDERFYNWYD – Ethol y Cynghorydd Robert Walsh yn Faer y Fwrdeistref Sirol am y flwyddyn nesaf.

3 PENODI DIRPRWY FAER

Cynigiodd y Cynghorydd John Pritchard, eiliwyd gan y Cynghorydd Alan Edwards ac yn unfrydol -

PENDERFYNWYD – Ethol y Cynghorydd Ronnie Prince yn Ddirprwy Faer y Fwrdeistref Sirol am y flwyddyn nesaf.

4 DATGANIADAU DERBYN SWYDD

Yn unol ag Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), fe wnaeth y Cynghorydd Robert Walsh Ddatganiad yn Derbyn Swydd Maer y Fwrdeistref Sirol.

Yn unol ag Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), fe wnaeth y Cynghorydd Ronnie Prince Ddatganiad yn Derbyn Swydd Dirprwy Faer y Fwrdeistref Sirol.

(Cynghorydd Robert Walsh yn Cadeirio)

Dywedodd y Maer oedd newydd gael ei ethol ei fod yn fraint ac yn anrhydedd mawr iddo gael ei ethol yn Faer y Fwrdeistref Sirol ac fe wnaeth gyfleu ei longyfarchiadau i'r Maer a'r Faeres blaenorol, y Cynghorydd Andy Williams a Mrs Bev Williams, am eu cyfnod llwyddiannus iawn, gan ddymuno'n dda iddynt i'r dyfodol. Diolchodd i'r Cynghorwyr Phil Wynn a Bryan Apsley am gynnig ac eilio ei enwebiad ac i'w gyd-aelodau am eu cefnogaeth. Diolchodd hefyd i'r Prif Weithredwr, y staff Maerol a staff eraill am eu cymorth a'u cefnogaeth.

Dywedodd y Maer mai'r elusennau oedd o wedi'u dewis am y flwyddyn oedd HACK Horse Sanctuary, Bowel Cancer UK a SANDS - Elusen Marw-Enedigaethau a newydd enedigol. Wrth gloi, diolchodd i'w gymar, Ms Sharon Pope am gytuno i fod yn Faeres am y flwyddyn nesaf, ac i Ysgol St Christopher am eu cyfraniad cerddorol yn ystod y seremoni heddiw.

Wrth annerch y Cyngor, cynigiodd y Dirprwy Faer ei longyfarchiadau i'r Maer a'r Faeres newydd a diolchodd i'r Cynghorwyr John Pritchard a T Alan Edwards am gynnig ac eilio ei enwebiad. Dywedodd ei fod yn anrhydedd fawr iddo gael ei ethol yn Ddirprwy Faer Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac roedd yn croesawu'r cyfle i gefnogi'r Maer a'r Faeres i hyrwyddo'r Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol yn ystod y flwyddyn nesaf. Wrth gloi, diolchodd i Miss Sunanda Kapas am gytuno i fod yn Ddirprwy Faeres dros y flwyddyn nesaf.

5 DIOLCH

Galwodd y Maer ar y Cynghorwyr Mark Pritchard a Gwenfair Jones i gynnig ac eilio, yn ôl eu trefn, neges o ddiolch i'r Maer a'r Faeres blaenorol, y Cynghorydd Andy

Williams a Mrs Bev Williams.

Ar ran y Cyngor, diolchodd y Cynghorydd Mark Pritchard i'r Maer a'r Faeres blaenorol am eu hymroddiad ac am fod yn llysgenhadon gwych i Wrecsam yn ystod eu cyfnod yn y swydd, gan ddymuno'n dda iddyn nhw i'r dyfodol.

Yn ymateb i hynny, diolchodd y Maer blaenorol i'r Cynghorwyr Mark Pritchard a Gwenfair Jones am eu negeseuon caredig, i'w gyd-gynghorwyr a'r staff Maerol am eu cefnogaeth ac i'r Maer a'r Faeres newydd am eu hapwyntiadau.

Dywedodd yn ystod ei gyfnod fel Maer ei fod o a'r Faeres wedi cyfarfod ag amrywiaeth eang o bobl yn ystod eu hymweliadau swyddogol ledled y Fwrdeistref Sirol a thu hwnt. Roedd bob digwyddiad wedi bod yn arbennig iawn ac roedd o'n teimlo ei bod hi'n anrhydedd fawr i arwyddo'r Llyfr Rhyddid ar gyfer y RAF yng Nghymru, ar ran y Cyngor, wedi cael mynd i sawl digwyddiad yn Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf, wedi cael bod yn Uchel Siryf ac wedi bod yn Faer yn ystod dathliad 70 mlynedd y GIG.

Cydnabu'r amrywiaeth eang o waith a wneir gan nifer o sefydliadau gwirfoddol yn y Fwrdeistref Sirol. I gloi, diolchodd yn arbennig i'w wraig am fod yn Faeres ac i'w fab am ei gefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

6 **GOHIRIO**

Ar ddiwedd y Seremoni, rhoddodd y Maer wahoddiad i bawb ymuno ag o am luniaeth yn yr Ystafelloedd Pwyllgorau ac felly -

PENDERFYNWYD – Gohirio'r cyfarfod tan Ddydd Mercher, 22 Mai 2019 am 4pm.

Y Cynghorydd Andy Williams
Maer